

Y Pwyllgor Cydraddoldeb,  
Llywodraeth Leol a Chymunedau  
**A yw Deddf Trais yn erbyn  
Menywod, Cam-drin Domestig a  
Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn  
gweithio?**

**Craffu ar ôl y broses ddeddfu**

---

Rhagfyr 2016



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

# Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisiau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tloidi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**John Griffiths AC (Cadeirydd)**

Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Gareth Bennett AC**

UKIP Cymru  
Canol De Cymru



**Janet Finch-Saunders AC**

Ceidwadwyr Cymreig  
Aberconwy



**Siân Gwenllïan AC**

Plaid Cymru  
Arfon



**Bethan Jenkins AC**

Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Rhianon Passmore AC**

Llafur Cymru  
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**

Llafur Cymru  
Canol Caerdydd



**Joyce Watson AC**

Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddCymunedau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCymunedau@cynulliad.cymru)**

Twitter: **[@SeneddCLILCh](https://twitter.com/SeneddCLILCh)**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb,  
Llywodraeth Leol a Chymunedau  
**A yw Deddf Trais yn erbyn  
Menywod, Cam-drin Domestig a  
Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn  
gweithio?**

**Craffu ar ôl y broses ddeddfu**

---

Rhagfyr 2016



# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd .....	5
Argymhellion .....	6
01. Cyflwyniad.....	9
02. Cyflymder a chysondeb rhoi'r Ddeddf ar waith.....	10
03. Strategaethau cenedlaethol a lleol .....	21
04. Addysg.....	27
05. Y Cynghorydd Cenedlaethol.....	33
Atodiad A: tystiolaeth a gafwyd .....	36



# Rhagair y Cadeirydd

Rwy'n falch o gyflwyno adroddiad cyntaf y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn y Pumed Cynulliad. Cytunodd yr aelodau a'r rhanddeiliaid y byddai'n ddefnyddiol ac yn werthfawr adolygu cynnydd Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n ddeddf arloesol, felly cynhaliwyd ymchwiliad byr ym mis Medi a mis Hydref 2016.

Mae'r Ddeddf yn cael ei chydabod yn rhyngwladol fel darn o ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd. Os caiff ei gweithredu'n llwyddiannus, dylai arwain at welliannau gwirioneddol o ran diogelu a chefnogi goroeswyr ac, yn y pen draw, at atal camdriniaeth. Roeddem yn credu y byddai craffu ar y Ddeddf yn gynnar yn cyfrannu at ei gweithredu'n well, ac yn helpu Llywodraeth Cymru i wella ei dull o ymdrin â'r strategaethau cenedlaethol a lleol, y cynllun cyflawni a darpariaethau addysg.

Canfuwyd, er y bydd y Ddeddf yn cyflawni gwelliannau o ran y ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cefnogi goroeswyr ac yn atal camdriniaeth, mae angen gwneud rhai gwelliannau ymarferol er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn cyflawni ei nod o wella ymateb y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid a chlywedd yn uniongyrchol gan oroeswyr y bu i'w tystiolaeth chwarae rhan hollbwysig yng ngwaith y Pwyllgor. Heb eu cyfraniad a'u hawgrymiadau, ni fyddai wedi bod yn bosibl llunio'r adroddiad hwn.


Cafodd y pwyllgor ei ysbrydoli gan gryfder y goroeswyr wrth iddynt rannu eu hanesion a'u profiadau.

Hoffem ddiolch iddynt, ac i Calan DVS, Cymorth i Ferched Casnewydd, Rainbow Bridge a Bawso, a drefnodd yr ymweliadau ar gyfer yr Aelodau.

Roedd prif ganfyddiadau ein hadroddiad yn ymwneud â:

- chyflymder a chysondeb rhoi'r Ddeddf ar waith, yn arbennig o ran cyhoeddi canllawiau statudol, adnoddau a'r galw am wasanaethau, a chysoni gofynion y Ddeddf gyda deddfwriaeth arall;
- pryderon am gynnwys ac amseriad y Strategaeth Genedlaethol;
- sut y caiff addysg perthnasoedd iach ei ddarparu mewn ysgolion, ac mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch;
- capasiti, pŵer a dylanwad y Cynghorydd Cenedlaethol.

Rwy'n gobeithio y bydd y dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu a'r argymhellion a wnaed o ganlyniad i hynny yn cyfrannu at roi'r Ddeddf hon ar waith yn effeithiol nawr ac yn y tymor hir.



**John Griffiths AM**

Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i chynllun cyflawni arfaethedig sy'n cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol, bennu dyddiadau cyflawni penodol, unigol ar gyfer:

- pob set o ganllawiau statudol sydd heb eu rhoi ar waith;
- y canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â pharatoi strategaethau lleol;
- y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y mewnosodir gan adran 9 o'r Ddeddf) yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn adrodd ar sut mae eu sefydliadau addysgol yn gweithredu'r Ddeddf;
- cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroewyr. .... Tudalen 20

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen ar gyfer pryd y bydd y dangosyddion cenedlaethol o dan adran 11 o'r Ddeddf yn cael eu cyhoeddi..... Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyhoeddi'r canllawiau comisiynu statudol ar gyfer gwasanaethau arbenigol..... Tudalen 20

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol am sut y gallant gysoni pecynnau hyfforddi, asesiadau o'r angen a fframweithiau canlyniadau â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015..... Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen ar gyfer pa bryd y bydd Bwrdd Cynghori ynglŷn â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cwblhau ei waith ar greu model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector arbenigol (a phryd y bydd hyn yn cael ei gyfathrebu). Dylai hefyd sicrhau bod cyllid digonol ar gael i'r sector er mwyn ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw yn sgil y Ddeddf. .... Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau brys gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynadleddau asesu risg amlasiantaeth yng Nghymru er mwyn asesu effaith unrhyw arian a gllir, a sut y gall y gronfa drawsnewid newydd sbarduno gwaith partneriaeth..... Tudalen 20

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob strategaeth, gwasanaeth, rhaglen hyfforddi a set o ganllawiau sy'n cael eu paratoi neu'n cael eu comisiynu yn sgil y Ddeddf:**

- yn mynd i'r afael â phob math o drais a gwmpesir gan y Ddeddf, ac nid dim ond cam-drin domestig;
- yn defnyddio diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.....Tudalen 20

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder:**

- i egluro statws cyfreithiol y cynllun cyflawni sydd ar y gweill, a gorau oll os gellir cyhoeddi hwnnw ar ffurf canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod modd ei orfodi;
- i amlinellu pa bryd y cyhoeddir y cynllun cyflawni, a sut yr ymgynghorir yn ei gylch;
- i sicrhau bod y deg argymhelliad gan oroeswyr sydd yn yr adroddiad 'Are you listening and am I being heard?' yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod y broses o ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr. .... Tudalen 26

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i gynnwys addysg perthnasoedd iach yn y cwricwlwm newydd o dan y Maes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a Llesiant', a sicrhau y caiff hyn ei ddarparu ym mhob ysgol..... Tudalen 32**

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob ysgol, (ac yn arbennig y rhwydwaith o Ysgolion Arloesi) yn defnyddio'r Canllaw Arfer Da, a dylai sefydlu trefniadau monitro i fesur effeithiolrwydd y canllaw hwnnw. Ar ôl gwerthuso'r Canllaw, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei wneud yn ganllawiau statudol. .... Tudalen 32**

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru brysuero i baratoi'r rheoliadau o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth gan awdurdodau lleol am sut y maent yn rhoi eu swyddogaethau ar waith i hyrwyddo diben y Ddeddf. Dylai ymrwmo hefyd i fynnu bod awdurdodau lleol yn dechrau adrodd erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2017/18. .... Tudalen 32**



**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r pecyn o adnoddau a deunyddiau a luniwyd gan Cymorth i Ferched Cymru ac AVA (Against Violence and Abuse) i'w defnyddio ochr yn ochr â'r Canllaw Arfer Da..... Tudalen 32

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd addysg perthnasoedd da a chydsynio'n cael ei darparu gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys trefnu i gyhoeddi canllawiau gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan adran 10 o'r Ddeddf.....  
.....Tudalen 32

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu capasiti rôl y Cynghorydd Cenedlaethol, gan ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol iddi ar gyfer gwaith ymchwil ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol..... Tudalen 35

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gosbau sydd ar gael i Weinidogion Cymru oni fydd awdurdodau'n cyflawni gofynion y Ddeddf.....  
.....Tudalen 35

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio at y Cynghorydd Cenedlaethol, ei chyfrifoldebau a'i chynllun gwaith blynyddol yn y cynllun cyflawni ac mewn unrhyw strategaethau cenedlaethol a lleol yn y dyfodol.....  
.....Tudalen 35

# 01. Cyflwyniad

1. Ym mis Gorffennaf 2016, penderfynodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a oedd newydd ei ffurfio (y Pwyllgor) ymchwilio i weld i ba raddau yr oedd **y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)** (y Ddeddf) yn cael ei rhoi ar waith drwy wneud **darn byr o waith craffu ar ôl y broses ddeddfu**.
2. Dewisodd y Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o faterion allweddol, gan gynnwys addysg perthnasoedd iach, ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith awdurdodau lleol a gwaith y Cynghorydd Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (y Cynghorydd Cenedlaethol). Gallwch ddarllen y cylch gorchwyl llawn **ar wefan y Pwyllgor**.
3. Cafodd y Pwyllgor **36 o gyflwyniadau ysgrifenedig, cynhaliwyd 6 sesiwn tystiolaeth lafar ac ymwelwyd â 4 o brosiectau** i gyfarfod â darparwyr gwasanaethau a goroeswyr. Mae rhagor o fanylion am y rhain i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb o'r Ddeddf

4. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw **gwella ymateb y sector cyhoeddus** i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n bwriadu rhoi ffocws strategol i awdurdodau cyhoeddus ar y mater, a sicrhau bod **gwasanaethau ataliol, amddiffynnol a chefnogol yn cael eu darparu'r gyson**.
5. Mae chwe phrif elfen i'r ddeddfwriaeth:
  - dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi **Strategaeth Genedlaethol**;
  - dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi **strategaethau lleol**;
  - dyletswydd ar awdurdodau lleol i **adrodd am sut y maent yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu sefydliadau addysg**, gan gynnwys drwy addysg ryw;
  - gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol i fesur y cynnydd tuag at gyflawni nodau'r Ddeddf, a chyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol;
  - y pŵer i Weinidogion gyhoeddi canllawiau statudol (am faterion megis hyfforddi, comisiynu gwasanaethau, "Gofyn a Gweithredu"<sup>1</sup>, rhannu gwybodaeth a chryfhau ymwybyddiaeth) a'r ddyletswydd i'w dilyn; a'r
  - y gofyniad i Weinidogion Cymru benodi Cynghorydd Cenedlaethol i gynghori Gweinidogion, monitro gweithredu'r Ddeddf a gwneud gwaith ymchwil.

---

<sup>1</sup> Bydd **Gofyn a Gweithredu** yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol megis ymwelwyr iechyd a swyddogion tai adnabod symptomau o gam-drin, gofyn i bobl a ydynt yn cael eu cam-drin a gweithredu ar sail y wybodaeth.

## 02. Cyflymder a chysondeb rhoi'r Ddeddf ar waith

6. Cododd tystion bryderon am gyflymder a chysondeb rhoi darpariaethau'r Ddeddf ar waith. Roedd a wnelo'r pryderon hyn â'r canlynol: paratoi a chyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol (yr ymdrinnir ag ef ym mhennod 3 yr adroddiad hwn), ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith awdurdodau cyhoeddus, ymateb i'r galw am wasanaethau a chyhoeddi canllawiau statudol.

### Ymwybyddiaeth o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth arall a'u cysoni

7. Roedd rhanddeiliaid yn gymysg eu barn ynghylch a oedd awdurdodau'n ddigon ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf. Awgrymodd rhai fod mwy o sylw wedi'i roi i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, megis Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

---

“Awareness and understanding of the Act and its requirements **remain inconsistent across the public service in Wales.**”

Cynghorydd Cenedlaethol<sup>2</sup>

---

8. Dywedodd Barnardo's fod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi'r sylw a'r flaenoriaeth ddyledus i'r rhwymedigaethau.<sup>3</sup> Serch hynny, dywedodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn mai ychydig o ymwybyddiaeth a welwyd o'r Ddeddf ymhlith rhai adrannau nad oeddent yn wasanaethau rheng flaen, yn wahanol i'r hyn a welwyd yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<sup>4</sup>

9. Adleisiwyd hyn gan y Cynghorydd Cenedlaethol a ddywedodd:

---

“The timing of the introduction of the Act alongside the Social Services and Well-Being (Wales) Act and Well-Being of Future Generations (Wales) Act presented an opportunity to integrate many of the key messages, principles and requirements of the legislation.

I feel, however that this opportunity was missed and that there is a resultant risk that the Act will be considered in isolation rather than as part of an integrated Welsh approach to improving social, economic and cultural wellbeing.”<sup>5</sup>

---

10. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru mai ychydig o dystiolaeth sydd o ymagwedd integredig at gyflawni'r Ddeddf yn genedlaethol ac yn lleol.<sup>6</sup> Yn benodol, roeddent yn meddwl bod **Ile i gysoni asesiadau o anghenion y boblogaeth** y mae'r awdurdodau lleol yn eu cwblhau fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 â'r angen am asesiadau thematig o'r anghenion ym maes trais yn erbyn menywod. Roeddent yn pwysleisio hefyd bod Ile i gydlynu datblygu fframweithiau canlyniadau a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus sy'n ofynnol o dan y ddwy Ddeddf.

---

<sup>2</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 27

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 01

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>6</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 28

**11.** Roedd y Cynghorydd yn meddwl hefyd **bod diffyg cyfathrebu ystyrllon a diffyg cyfeiriad clir gan Lywodraeth Cymru** wedi golygu bod yr awdurdodau perthnasol a'u partneriaid, o dan rai amgylchiadau, wedi bod yn ansicr ynghylch sut i fwrw ymlaen i gyflawni eu dyletswyddau eu hunain a bod ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan y Ddeddf.<sup>7</sup> Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn awyddus i weld y **llinellau cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cael eu hegluro ar frys** er mwyn gallu datblygu dull cydweithredol o sicrhau'r canlyniadau mae'r Ddeddf yn ceisio'u cyflawni.<sup>8</sup>

**12.** Dywedodd Cyngor Sir y Fflint nad oedd y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol **wedi cael ei lansio a'i hyrwyddo'n ddigonol** yn genedlaethol, ac roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn meddwl bod y **diffyg gwybodaeth/cyfeiriad/eglurdeb** gan dîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru wedi achosi oedi o ran bwrw ymlaen â'r gwaith<sup>9</sup>

## Canllawiau

**13.** Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynglŷn â nifer o setiau o ganllawiau drafft yn 2015 sydd heb eu cyhoeddi ar eu ffurf derfynol eto.

**14.** Dim ond un set o ganllawiau (**Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**) sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau **Gofyn a Gweithredu** wrthi'n cael eu treialu mewn dwy ardal, ond nid ydynt wedi'u lledaenu'n genedlaethol. Dyma rai o'r canllawiau eraill:

- **canllawiau comisiynu** gwasanaethau - heb eu cyhoeddi eto;
- gwaith amlasiantaeth – heb eu cyhoeddi eto (ymgynghorwyd ynglŷn â'r rhain yn 2015);
- canllawiau ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr – heb eu cyhoeddi eto (ymgynghorwyd â'r Bwrdd Cynghori Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ynglŷn â'r rhain yn 2015).

## Canllawiau comisiynu

**15.** Roedd y rhanddeiliaid yn pwysleisio dro ar ôl tro bod angen ymagwedd Gymreig at ganllawiau comisiynu. Roedd y Cynghorydd Cenedlaethol yn meddwl **bod cyhoeddi'r canllawiau statudol ynglŷn â chomisiynu gwasanaethau arbenigol yn hanfodol** at ddibenion y Ddeddf a'i bod felly'n destun pryder nad oes amserlen wedi'i chadarnhau ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn.<sup>10</sup>

**16.** Am nad oes canllawiau comisiynu statudol ar gael, cyhoeddodd Sefydliad Banc Lloyd's a Chymorth i Ferched Cymru "**Tackling Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence; A Collaborative Commissioning Toolkit for Services in Wales**". Nid yw'n glir sut y caiff hyn ei ystyried wrth baratoi'r canllawiau comisiynu statudol. Mae Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig hefyd ar fin cyhoeddi a hyrwyddo egwyddorion arferion da a safonau ar gyfer comisiynu lleol ym mis Rhagfyr 2016.<sup>11</sup>

---

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>8</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 29

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 15 a 17

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>11</sup> Llywodraeth y DU, **Violence against Women and Girls Strategy 2016-2020** Tudalen 55

**17.** Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru **fod yr oedi wrth gyhoeddi canllawiau comisiynu'n destun pryder** oherwydd bod prosesau comisiynu, yn enwedig gyda golwg ar wasanaethau sy'n cael eu cyllido drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, megis cymorth arbenigol hyblyg a chymorth gan lochesau, **eisoes yn digwydd mewn nifer o awdurdodau lleol er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau eto.**<sup>12</sup>

---

“Local areas are starting to make decisions about what services they're funding. So, **they're making those decisions without that guidance.** Local areas need that guidance so that they're aware of what, as a minimum, they need to be providing.”

NSPCC<sup>13</sup>

---

**18.** Clywodd y Pwyllgor fod **gwasanaethau arbenigol yn cael eu comisiynu eisoes yng Nghymru**, yn enwedig y gwasanaethau sy'n cael eu cyllido drwy Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Cenedlaethol, gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ac egwyddorion, **fod y prosesau comisiynu'n anghyson**, a bod gwahanol wasanaethau'n cael eu comisiynu mewn ffyrdd gwahanol. Dywedodd Cymorth i Ferched Port Talbot ei bod yn hanfodol i'r Llywodraeth **ganolbwyntio'i bwriad ar y canllawiau comisiynu sydd yn yr arfaeth**, oherwydd bod penderfyniadau comisiynu'n cael eu gwneud yn lleol sy'n effeithio ar wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<sup>14</sup>

### Canllawiau amlasiantaeth

---

**19.** Dywedodd y Cynghorydd Cenedlaethol wrth y Pwyllgor fod y ddogfen ddrafft sy'n ymdrin â Chydweithio rhwng Asiantaethau yr ymgynghorwyd yn ei chylch yn 2015 yn cynnig canllawiau i ardaloedd wrth iddynt ystyried materion llywodraethu a phartneriaeth. Serch hynny, **nid oes dogfen derfynol wedi'i chyhoeddi.** Dywedodd ei bod yn hanfodol cael canllawiau ar gyfer trefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Ddeddf a sicrhau arweiniad strategol effeithiol ar lefel ranbarthol a lleol.<sup>15</sup>

### Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

---

**20.** Mae'r **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol** yn egluro gofynion Llywodraeth Cymru gyda golwg ar hyfforddi ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector.

**21.** Barn y Cynghorydd Cenedlaethol oedd mai **bach iawn yw effaith y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar hyn o bryd.** Soniodd hefyd am rai o'r gwersi cychwynnol a ddysgwyd yn sgil lledaenu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol:

---

“The publication of statutory guidance relating to the National Training Framework and the piloting of Ask and Act have raised important issues including;

---

---

<sup>12</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 28

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 13 Hydref 2016 (DS: Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at 'RoP' yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau)

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 20

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

---

Alignment of the national training framework with other training requirements / frameworks e.g. Social Services and Well-Being to ensure key messages are integrated and consistent and maximise resources

Assessment of the resources required to support effective and sustainable implementation of the national training framework

Earlier identification of individuals experiencing violence against women, domestic abuse and sexual violence resulting in an increased demand for specialist services and resource implications to support this increased demand

A mechanism for effective communication between Welsh Government and Relevant Authorities as it relates to the implementation of both the National Training Framework and Ask and Act.”<sup>16</sup>

---

**22.** Dywedodd Heddlu Gwent oedd mai nifer fach iawn o staff sydd wedi cael unrhyw hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.<sup>17</sup>

**23.** Serch hynny, mae profiad Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin wedi bod yn wahanol. Roeddent hwy'n dweud bod yr hyfforddiant wedi cynnig dull safonol o weithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub a deunyddiau hyfforddi i gryfhau eu hymwybyddiaeth.<sup>18</sup>

---

“We have evaluated 100 of those staff who've attended the training, and there was a **definite increase in their levels of confidence and knowledge** relating to violence against women, domestic abuse and sexual violence after the training [...]

We've actually fed back to Women's Aid and Welsh Government that **the content does need to be reviewed**, because there is a **strong focus on domestic abuse.**”

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<sup>19</sup>

---

**24.** Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei fod yn ymwybodol o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Er hynny, mae darparu'r Fframwaith yn broblem am nad oes dim adnoddau newydd wedi'u clustnodi ar gyfer hyn, a bod angen ei dafoli yn erbyn hyfforddiant ar faterion eraill megis 'gwrthderfysgaeth', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cryfhau cydlyniant cymunedol, e.e. Hyfforddiant Troseddau Casineb, Hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern, Hyfforddiant Sipsiwn a Theithwyr.<sup>20</sup>

**25.** Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru:

---

“Whilst the e-learning training has been developed and is being rolled out, there have been problems with accessing this for all 'Group 1' professionals.

---

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 06

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 08

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 469, 13 Hydref 2016

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 29



Training for Group 2 and Group 3 professionals is being delivered through ‘ask and act’ training.

Specialist sector training for Group 4 professionals has been commissioned to enable Independent Advocates and sexual violence services to access ‘free’ specialist accredited training, but the largest number of professionals in Group 4 –frontline professionals working within refuge-based services –have not been able to access.”<sup>21</sup>

**26.** Roedd Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<sup>22</sup> ill dau'n pryderu bod **materion technegol** wedi llesteirio lledaenu'r pecynnau hyfforddi. Dywedodd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr fod y lledaenu wedi bod yn broblem oherwydd anawsterau TG a thrwyddedau.

**27.** Aeth yn ei flaen i ddweud bod rhai problemau sy'n gysylltiedig ag agweddau ymarferol hyfforddi'r holl staff (fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth) heb eu datrys eto ac **nad oedd modd gwneud y gwaith o fewn yr amserlenni a bennwyd ar y dechrau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cwblhau Grŵp 1.** Yn yr un modd, **mae'n annhebygol y bydd y dysgu yn sgil Grŵp 2 (safleoedd treialu) ar gael tan fis Ionawr 2017.** Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na lwyddir ychwaith i gydymffurfio â'r amserlen ar gyfer darparu hyfforddiant, sef Mai 2017.<sup>23</sup>

### Canllawiau Gofyn a Gweithredu

**28.** Dywedodd y Cyngorydd Cenedlaethol fod Gofyn a Gweithredu wedi'i gyfyngu i'w dreialu mewn dau safle mabwysiadu'n gynnar a bod gwerthusiad wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2016. Aeth yn ei blaen i ddweud, **oherwydd ei bod yn bosibl y gwelir nifer fwy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol yn sgil rhagor o ymwybyddiaeth a gofynion “Gofyn a Gweithredu”** y bydd angen camu ymlaen i gytuno ar **gyllid cynaliadwy** ar gyfer gwasanaethau. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod darpariaeth arbenigol o ansawdd da i unigolion a theuluoedd ar gael ledled Cymru ac er mwyn cynnig ymateb seiliedig ar gryfderau sy'n cael ei dywys gan anghenion a hynny cyn gynted byth ag sy'n bosibl.<sup>24</sup>

**29.** Dywedodd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ei fod yn dal i ddisgwyl **canllawiau statudol ynglŷn â Gofyn a Gweithredu** ynghyd â'r dysgu yn sgil y safleoedd treialu. Dywedodd Cyngor Wrecsam fod rhoi polisi Gofyn a Gweithredu ar waith **hefyd yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau arbenigol yn lleol. Nid yw'r canllawiau terfynol ar gyfer Gofyn a Gweithredu wedi'u darparu er mwyn i wasanaethau wybod beth fydd effaith lawn rhoi hyn ar waith ac er mwyn iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol.**

**30.** Roedd Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan yn ategu hyn gan ddweud bod perygl gwirioneddol y bydd Gofyn a Gweithredu'n creu **tagfa o deuluoedd agored i niwed – rhai sydd mewn perygl neu angen ond na allant gael gafael ar y cymorth y mae ei angen arnynt.** Rhaid cytuno ar gyllid/adnoddau cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol cyn lledaenu Gofyn a Gweithredu.<sup>25</sup>

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig. PLVAW 28

<sup>22</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig. PLVAW 04 a 14

<sup>23</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig. PLVAW 04

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig. PLVAW 35

<sup>25</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig. PLVAW 20

## Canllawiau ynglŷn â Chyflawnwyr

**31.** Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd y Cyngorydd Cenedlaethol fod **goroeswyr yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy ar atal ymddygiad cyflawnwyr** ac mewn achosion lle bydd rheolaeth ormesol yn nodwedd o'r ymddygiad, y dylid ceisio sicrhau bod y cyflawnwyr yn gadael y cartref a bod y berthynas gamdriniol yn dod i ben.

**32.** Roedd y Cyngorydd Cenedlaethol yn cefnogi hyn, gan ddweud:

“Statutory guidance is expected from Welsh Government in relation to working with perpetrators and this guidance needs to provide overarching principles and clear direction from Welsh Government as to the role of public authorities in challenging and holding perpetrators to account for their behaviours.

Evidenced and accredited programmes are an important element of our responses to perpetrators and I expect the guidance to include minimum expectations for the commissioning of perpetrator interventions to ensure the safety of individuals and families are priority.”<sup>26</sup>

## Adnoddau a'r galw am wasanaethau

**33.** Roedd llawer o sefydliadau'n pryderu'n ddifrifol am sut y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu rhoi'r Ddeddf ar waith a'u cyllidebau'n prinhaus o hyd. Mae rhanddeiliaid wedi galw droeon am **fodel cyllido cynaliadwy** ar gyfer y sector, sy'n golygu arian tymor hwy, wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau. Clywodd y Pwyllgor y gallai Cymru **goli hanner y sector yng Nghymru o fis Ebrill 2017 ymlaen**, oni fyddai model o'r fath ar gael.

“In terms of Welsh Women's Aid members, 46 per cent of services had their funding cut this year. And that followed over half of them last year having some of their funding cut. [...] 'ask and act' and various other initiatives under the strategy and legislation will **increase demand to specialist services.**”

Cymorth i Ferched Cymru<sup>27</sup>

**34.** Adleisiwyd pryderon tystion eraill gan y Cyngorydd Cenedlaethol pan ddywedodd mai nodau'r ddau ddatblygiad polisi yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth awdurdodau lleol o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd hyn **yn sicr yn golygu y bydd mwy o bobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol**; a hyn ar adeg pan fydd gwasanaethau'n wynebu toriadau o flwyddyn i flwyddyn yn eu harian.

**35.** Dyma sut yr oedd Cymorth i Ferched Cymru yn crynhoi'r mater:

“[...] with the introduction of the Act, demand for services is likely to increase. It is critically important that the specialist services that support survivors of abuse have the funding and capacity to respond to any increase in demand, to ensure the services being offered are safe and meet needs.”<sup>28</sup>

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 147, 13 Hydref 2016

<sup>28</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 28

**36.** Roedd eu tystiolaeth hefyd yn pwysleisio canfyddiadau eu gwaith ymchwil diweddar a ganfu mai un o'r prif bethau a oedd yn poeni goroeswyr oedd cael gwybod am y gwasanaethau arbenigol oedd ar gael a gallu cael gafael arnynt ar yr adeg ac yn y man lle'r oedd eu hangen arnynt.

**37.** Roedd Atal y Fro yn awyddus i dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gan strategaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol cenedlaethol a lleol **gyllidebau wedi'u neilltuo ynghlwm wrthynt ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol**.<sup>29</sup> Aethant ymlaen i ddweud, ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bod **cyddydd** araf ond cyson wedi bod yn **nifer y cyfeiriadau anffurfiol at y gwasanaeth** ond nad oes dim cyllidebau lleol wedi'u dyrannu i sicrhau darpariaeth ddigonol. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod gwasanaethau arbenigol lleol wedi dweud eu bod **o dan bwysau sylweddol o ran darparu gwasanaethau**.

**38.** Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot fod y Ddeddf yn uchelgeisiol o ran yr hyn mae'n ceisio'i gyflawni i sicrhau canlyniadau i bobl sy'n dioddef trais seiliedig ar rywedd. Serch hynny, **mae'r goblygiadau gweithredu'r Ddeddf o safbwynt adnoddau'n** destun pryder o hyd ac aeth yn ei flaen i ddweud:

---

"[...] there is an urgent need to put specific grants into base budgets to ensure that local commissioners have the degree of flexibility needed to set clear priorities and develop more responsive services to meet the needs of people affected by gender based violence.

In particular, Supporting People, Substance Misuse, Welsh Government, Home Office, Families First funding streams need to be "pooled" in order that the new Partnership can exercise the new responsibilities the Act envisages. We would be very happy to pilot such an approach."<sup>30</sup>

---

**39.** Hefyd clywodd y Pwyllgor fod Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig **yn bwriadu rhoi terfyn ar gyllido cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynadleddau amlasiantaeth asesu risg** yng Nghymru yn 2017. Yn ôl y Cynghorydd Cenedlaethol, y rhesymwaith yw y dylai'r cyllid fod wedi'i integreiddio i gyllid craidd lleol a rhanbarthol erbyn hyn. Roedd y Cynghorydd Cenedlaethol hefyd yn gweld cyfle yn y fan hon, gan ddweud:

---

"[...] the grant fund that's being brought in to replace [IDVA and MARAC funding] is called the transformation fund and will be applicable to England and Wales and could have real potential in Wales in terms of partnership bids to drive forward some of the work."<sup>31</sup>

---

**40.** Tynnodd Bawso hefyd sylw at fater yn ymwneud â chyllid ar gyfer materion sydd heb eu datganoli lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru. Dywedodd fod grant o fwy na £3 miliwn wedi'i ryddhau gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau anffurfio organau cenhedlu benywod ac y gofynnwyd i'r holl wasanaethau yng Nghymru wneud cais amdano, ond yn print mân nodwyd mai dim ond sefydliadau o Loegr a allai wneud hynny.<sup>32</sup>

---

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 21

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 29

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 19 Hydref 2016

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 13 Hydref 2016

## Canolbwyntio ar gam-drin domestig

41. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon bod gweithredu'r Ddeddf yn canolbwyntio **ar gam-drin domestig, ar draul trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod**. Dywedodd Llwybrau Newydd mai un o'r problemau yn sgil yr oedi wrth weithredu oedd bod strategaethau lleol yn cael eu paratoi am nad oes Strategaeth Genedlaethol ar gael.

42. Dywedodd y sefydliad mai un o oblygiadau hyn ar gyfer trais rhywiol yn benodol yw bod llawer o'r cynlluniau hynny ar hyn o bryd yn **canolbwyntio'n llwyr ar gam-drin domestig**. Nid ydynt yn cynnwys elfen o drais rhywiol o gwbl. Mae cynllun Powys, er enghraifft, yn ymwneud yn benodol â thrais domestig neu gam-drin domestig.<sup>33</sup>

## Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

43. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru **wedi cymryd camau breision** o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol. Dywedodd ei fod yn **hyderus y bydd** yr hyn y mae Llywodraeth Cymru **yn ei wneud yn gwella cymorth i ddioddefwyr**.<sup>34</sup>

44. Ymhelaethodd ar hyn gan ddweud:

---

“[...] the Act is novel; it's a new piece of legislation that introduces a very different way of working across the public sector and I think it's an exciting opportunity. But also, it's been challenging.[...]

The thing that I see as challenging, finances are always challenging, but that's because of the settlements we get; having a long-term, sustainable financial settlement for the sector is a difficult one.”<sup>35</sup>

---

45. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru **yn cydnabod bod bylchau o hyd yn y ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol** ac y bydd, ar y cyd â'i phartneriaid arbenigol, yn parhau i fynd i'r afael â'r bylchau hyn gan gefnogi ar yr un pryd y gwasanaethau sydd ar waith eisoes. **Bydd yn targedu adnoddau ychwanegol yn y manau lle mae'r angen ar ei fwyaf er mwyn sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn gynaliadwy** yn y dyfodol.<sup>36</sup>

46. Serch hynny, yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18, nid oedd yr arian ar gyfer cam-drin domestig a'r rhaglen Cefnogi Pobl wedi newid o gwbl ers y flwyddyn flaenorol.<sup>37</sup>

47. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod Bwrdd Cyngori ynglŷn â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi cael y dasg o edrych ar y ddarpariaeth gwasanaethau a, gobeithio, ar fodel cyllido cynaliadwy y gallai pawb gobeithio gydweithio tuag ato a chytuno arno.<sup>38</sup> Mae'n ymddangos bod y gwaith yn cynnwys cyfuno ffrydiau cyllido, gan fod y Strategaeth Genedlaethol yn cynnwys ymrwymiad i “[g]ynnal adolygiad o'r cyllid presennol gan

---

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 13 Hydref 2016

<sup>34</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, ELGC(5)-08-16 Papur 2 – Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

<sup>35</sup> Cofnod y trafodion, paragraff 78, 19 Hydref 2016

<sup>36</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, ELGC(5)-08-16 Papur 2 – Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

<sup>37</sup> Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2017-18, Hydref 2016

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 19 Hydref 2016

Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn y ffordd orau".

## Barn y pwyllgor

**48.** Ar ôl clywed tystiolaeth gan amrywiaeth o dystion, **rydym yn pryderu bod rhoi'r Ddeddf ar waith, mewn rhai ardaloedd, wedi bod yn araf.** Mae 18 mis wedi mynd heibio ers pasio'r Ddeddf, ac mae rhai rhwymedigaethau pwysig heb eu cyflawni eto, megis lledaenu Gofyn a Gweithredu drwy'r wlad, cyhoeddi canllawiau statudol am gomisiynu, gwaith amlasiantaeth a gwaith gyda chyflawnwyr, y dangosyddion cenedlaethol (fel sy'n ofynnol o dan adran 11 o'r Ddeddf); a'r rheoliadau ynglŷn ag addysg (yr ymdriniwyd â hwy ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn).

**49.** Tynnodd rhywfaint o'r dystiolaeth sylw at ddiffyg cyfathrebu a diffyg canllawiau gan Lywodraeth Cymru sydd wedi golygu bod rhai awdurdodau cyhoeddus a chyrff yn y trydydd sector yn aneglur ynglŷn â pha bryd y cyhoeddir y cynllun cyflawni sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol a'r canllawiau statudol sy'n weddill, gan ei gwneud yn fwy anodd cynllunio strategaethau a gwasanaethau lleol.

**50.** Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod y cynllun cyflawni yn cynnwys camau ac amserlenni manwl, er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau a goroeswyr fod yn eglur ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl yn ystod oes y Strategaeth Genedlaethol. Rydym yn cyfeirio Ysgrifennydd y Cabinet at [Violence against Women and Girls Strategy 2016-2010](#) Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys cynllun gweithredu manwl (tudalen 55 ymlaen) a dyddiadau cyflawni.

**51.** Yn benodol, rydym yn pryderu bod **gwasanaethau'n cael eu comisiynu heb y canllawiau statudol** gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu y gallai fod anghysondeb rhwng gwahanol ardaloedd, sy'n groes i nod cyffredinol y Ddeddf, sef gwella cysondeb, ansawdd a chydlynu'r ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru.

**52.** Dywedodd tystion wrthym, gan gynnwys y Cynghorydd Cenedlaethol, y gellid **gwneud rhagor i ysgafnhau baich y gofynion deddfwriaethol ar awdurdodau lleol (hyfforddiant ac asesu anghenion yn benodol)**, drwy eu helpu i gysoni amrywiol rwymedigaethau gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, yn benodol y rheini sydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

**53.** Mae gennym bryderon difrifol **na fydd y sector arbenigol yng Nghymru o bosibl yn gallu ymdopi â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil y Ddeddf a ffactorau eraill.** Er ein bod yn nodi bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i dargedu adnoddau ychwanegol lle mae'r angen ar ei fwyaf er mwyn sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn gynaliadwy, ni welsom dystiolaeth o hyn yn y gyllideb ddrafft ddiweddar ar gyfer 2017-18.

**54.** Roeddem yn falch o glywed bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi rhoi'r dasg i'w Fwrdd Cynghori i edrych ar gynaliadwyedd y cyllid ar gyfer y sector arbenigol yng Nghymru, a bod y mater hwn wedi'i gynnwys yn gam gweithredu yn y Strategaeth Genedlaethol. Serch hynny hoffem gael eglurhad am yr amserlenni ar gyfer pa bryd y bydd y Bwrdd Cynghori yn gorffen ei waith a sut y bydd hyn yn cael ei gyfathrebu, er mwyn i'r sector fod mewn sefyllfa i ddeall a chynllunio ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir gwasanaethau. Hoffem gael sicrwydd hefyd y bydd digon o arian ar gael i'r sector ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau arbenigol yn sgil y Ddeddf.

**55.** Yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU i ddod â'r cyllid i ben ar gyfer cynghorwyr annibynnol ar drais domestig (IDVAs) sydd heb eu datganoli a chynadleddau asesu risg

amlasiantaethol (MARACs), hoffem i Lywodraeth Cymru egluro pa drefniadau fydd ar waith yng Nghymru ar ôl mis Mawrth 2017, a dangos sut y caiff y gronfa drawsnewid ei defnyddio yng Nghymru i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl.

**56.** Rydym yn cydnabod y pryder a godwyd gan rai tystion bod y Strategaeth Genedlaethol, y rhaglenni hyfforddi a'r canllawiau **yn canolbwyntio ar gam-drin domestig ar draul trais yn erbyn menywod, a thrais rhywiol yn benodol**. Credwn, os yw'r Ddeddf am lwyddo, bod yn rhaid rhoi'r un sylw i bob math o gam-drin a thrais a gwmpesir ganddi.



**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i chynllun cyflawni arfaethedig sy'n cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol, bennu dyddiadau cyflawni penodol, unigol ar gyfer:

- pob set o ganllawiau statudol sydd heb eu rhoi ar waith;
- y canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â pharatoi strategaethau lleol;
- y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y mewnosodir gan adran 9 o'r Ddeddf) yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn adrodd ar sut mae eu sefydliadau addysgol yn gweithredu'r Ddeddf;
- cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen ar gyfer pryd y bydd y dangosyddion cenedlaethol o dan adran 11 o'r Ddeddf yn cael eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyhoeddi'r canllawiau comisiynu statudol ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol am sut y gallant gysoni pecynnau hyfforddi, asesiadau o'r angen a fframweithiau canlyniadau â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen ar gyfer pa bryd y bydd Bwrdd Cynghori ynglŷn â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cwblhau ei waith ar greu model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector arbenigol (a phryd y bydd hyn yn cael ei gyfathrebu). Dylai hefyd sicrhau bod cyllid digonol ar gael i'r sector er mwyn ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw yn sgil y Ddeddf.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau brys gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynadledau asesu risg amlasiantaeth yng Nghymru er mwyn asesu effaith unrhyw arian a gllir, a sut y gall y gronfa drawsnewid newydd sbarduno gwaith partneriaeth.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob strategaeth, gwasanaeth, rhaglen hyfforddi a set o ganllawiau sy'n cael eu paratoi neu'n cael eu comisiynu yn sgil y Ddeddf:

- yn mynd i'r afael â phob math o drais a gwmpesir gan y Ddeddf, ac nid dim ond cam-drin domestig;
- yn defnyddio diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### 03. Strategaethau cenedlaethol a lleol

57. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol, a bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cydweithio i baratoi strategaethau lleol.

#### Strategaeth Genedlaethol

58. O dan y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Strategaeth Genedlaethol 6 mis ar ôl yr etholiad cyffredinol a rhaid iddi gynnwys:

- **amcanion** a fydd, ym marn Gweinidogion Cymru, o'u cyflawni, yn cyfrannu at fynd ar drywydd diben y Ddeddf hon;
- o fewn pa gyfnodau y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl gweld cyflawni'r amcanion a bennwyd; a'r
- camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion a bennwyd.

59. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2015, sy'n golygu bod **y llywodraeth wedi cael 18 mis i baratoi'r strategaeth genedlaethol, ymgynghori yn ei chylch a'i chyhoeddi**. Lanswyd ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o'r strategaeth ym mis Awst 2016, ac fe ddaeth i ben ar 10 Hydref 2016, lai na mis cyn bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei chwblhau a'i chyhoeddi.

60. Roedd cyfran sylweddol o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn codi pryderon mawr am y Strategaeth Genedlaethol ddrafft, gan gynnwys:

- yr amserlen fer ar gyfer ymgynghori a chwblhau fersiwn derfynol y strategaeth;
- y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y strategaeth;
- diffyg amcanion CAMPUS <sup>39</sup> a dyddiadau cyflawni;
- diffyg ymrwymiad i ddarparu arian i alluogi cyflawni'r amcanion;
- hepgor deg argymhelliad y goroeswyr; a
- diffyg ymrwymadau traws-lywodraeth.

61. Cyhoeddwyd y [Strategaeth Genedlaethol derfynol](#) gan Lywodraeth Cymru ar 4 Tachwedd 2016. Rhoddwyd sylw i rai o'r materion a godwyd gan y rhanddeiliaid yn y fersiwn derfynol, ond nid i bob un ohonynt. Rhoddwyd sylw i rai pryderon yn y Strategaeth Genedlaethol derfynol drwy:

- fabwysiadu diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cynnwys **deg argymhelliad y goroeswyr, sydd yn yr adroddiad 'Are you listening and am I being heard?', yn naratif** y Strategaeth Genedlaethol; ac
- ymrwymadau i:

---

<sup>39</sup> Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

- ddatblygu Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ymagwedd fwy cydlynol a thymor hir at ymgysylltu a chyfathrebu;
- archwilio modelau ar gyfer cyllido gwasanaethau arbenigol mewn ffordd gynaliadwy;
- sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr;
- cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i lywio datblygu strategaethau lleol;
- adolygu ffrydiau cyllido presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- gweithio gyda'r Cynghorydd Cenedlaethol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod teuluoedd a ddynodir ac sydd ag angen cymorth i fyw gyda phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gysylltiedig â cham-drin a thrais, yn gallu cael gfael ar ymyraethau sydd ar gael eisoes gan wasanaethau arbenigol.

**62.** Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cynnwys **un amserlen gyffredinol** ar gyfer cwblhau pob un o'i hamcanion, sef Tachwedd 2021. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i gwneud yn glir mai ei fwriad yw cyhoeddi cynllun cyflawni manylach i ategu'r Strategaeth, **nid yw'n glir a fydd hyn yn cynnwys amserlenni ar gyfer pob cam gweithredu.**

## Strategaethau lleol

**63.** O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol paratoi strategaethau lleol, ymgynghori yn eu cylch a'u cyhoeddi erbyn mis Mai 2018. Roedd tystiolaeth gan ddarparwyr gwasanaethau yn Rhanbarth Cwm Taf yn dweud bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi bod yn disgwyl gweld cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol er mwyn iddi lywio'u strategaethau lleol. Dywedodd y Cynghorydd Cenedlaethol, er bod ardaloedd wedi dechrau ystyried gwybodaeth yr asesiadau o anghenion, mai dim ond **dwyo ardaloedd yr awdurdodau lleol oedd, hyd y gwyddai, wedi dechrau datblygu eu strategaeth** ac nad oedd yr un o'r ardaloedd hyn wedi dweud eto beth fyddai effaith blaenoriaethau strategol ar fodelau darparu gwasanaethau.<sup>40</sup>

---

“I am concerned about **how the local strategies will link with the national strategies**. There's no clarity about that, which is why we need a strong national strategy to form the framework and provide the guidance to all the local strategies.”

NSPCC41

---

**64.** Tynnodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot sylw at y ffaith nad yw'r gofyniad i baratoi strategaeth trais yn erbyn menywod leol **yn cydweddu'n gyfforddus â gofynion eraill a orfodir o dan Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014** sy'n gofyn am fewnbwn i ddatblygu'r asesiad o'r boblogaeth ar sail amserlen wahanol i'r hyn sydd yn y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Nid yw hyn o gymorth.<sup>42</sup>

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 09

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 13 Hydref 2016

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 29

**65.** Yn eu tystiolaeth lafar, awgrymodd tystion rai ffyrdd ymarferol o gysoni darnau eraill o ddeddfwriaeth â'r Ddeddf ar lefel leol, er enghraifft:

- cyfuno rhai rhaglenni hyfforddi sy'n gysylltiedig â diogelu;
- cysoni asesiadau o anghenion llesiant a'r boblogaeth; a
- chydlynu'r fframwaith canlyniadau.

### **Barn goroeswyr**

**66.** Roedd y Cynghorydd Cenedlaethol wedi cefnogi ymgynghoriad â goroeswyr cam-drin rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016 a gynhaliwyd gan Cymorth i Ferched Cymru. Nodau'r ymgynghoriad oedd llywio argymhellion goroeswyr y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar:

- Y blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth genedlaethol – atal, amddiffyn a chefnogi;
- Gwella ymatebion gwasanaethau cyhoeddus a blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol; a
- Profi barn am ymgysylltu parhaus â goroeswyr yng Nghymru.

**67.** Cyhoeddwyd adroddiad am argymhellion goroeswyr, **Are you listening and am I being heard**, ym mis Mawrth 2016. Mae'n cynnwys deg prif argymhelliad i lywio'r Strategaeth Genedlaethol. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor **nad oeddent yn credu bod yr argymhellion hyn wedi'u hystyried yn y Strategaeth Genedlaethol ddrafft.**

**68.** Dyma'r deg argymhelliad a gafwyd gan y goroeswyr:

- 1. Gwasanaethau arbenigol penodol i blant a phobl ifanc** yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin domestig, trais rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, priodas dan orfodaeth, cam-fanteisio neu aflonyddu rhywiol, neu sy'n wynebu camdriniaeth o'r fath.
- 2. Gwasanaethau arbenigol i oroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol** sydd ar gael yn hwylus ac y darperir adnoddau ar eu cyfer i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o oroeswyr.
- 3. Gwella arferion yn y llysoedd teulu ac arferion CAF/CASS Cymru a chyswllt diogel** i blant mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
- 4. Cymorth hygyrch 'gwasanaeth lloches' ym mhob ardal**, ynghyd ag opsiynau tai diogel, fforddiadwy, tymor hwy i gynnig hyblygrwydd a dewis.
- 5. Grwpiau menywod a chymorth gan gymheiriaid sy'n golygu bod pobl yn llai ynysig** gan fanteisio i'r eithaf ar leoliadau annibynnol i feithrin hyder, hunan-gred ac i rymuso.
- 6. Mynediad teg i ddiogelwch, cymorth, gwarchodaeth a chyfiawnder ac arian** i fyw'n annibynnol, beth bynnag fo statws mewn fudo goroeswyr.
- 7. Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig** i oroeswyr a'r rheini ar gael pan fydd eu hangen, yn briodol ar gyfer eu hoedran, ac yn help i feithrin eu cydnerthedd a'u hadferiad.

8. Mwy o ffocws ar **atal ymddygiad cyflawnwyr** a, lle bydd rheolaeth orthrymol yn nodwedd, ar sicrhau bod cyflawnwyr yn gadael a bod y berthynas gamdriniol yn dod i ben.
9. **Gwella'r hyfforddiant i bob gwasanaeth** ar bob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hynny'n cael ei lywio gan brofiadau goroeswyr.
10. Atal trais yn erbyn menywod rhag digwydd yn y lle cyntaf, drwy **addysg atal orfodol ym mhob ysgol a chryfhau ymwybyddiaeth** o'r materion a'r help sydd ar gael mewn cymunedau lleol.

69. Dywedodd y Cyngorydd Cenedlaethol:

“If those recommendations don't underpin our national strategy, then what message does that send to our survivors, who've given their time and who've given their recommendations, but they're not coming out as central to our national strategy?”<sup>43</sup>

70. Yn y Strategaeth Genedlaethol derfynol, **cafodd deg argymhelliad y goroeswyr eu cynnwys yn naratif y ddogfen**. Serch hynny, nid yw'r rhan fwyaf wedi'u cynnwys yn gamau gweithredu yn y strategaeth. Mae'r strategaeth yn dweud bod yr argymhellion yn **sail bwysig i'r Strategaeth hon ac y byddant yn llywio rhagor ar ddatblygu'r Fframwaith Cyflawni**, ond nid yw hyn yn amlwg yn y camau gweithredu.

71. Roedd y Cyngorydd Cenedlaethol a Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn galw am **fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr** ac y dylai hwnnw gael ei gyllido'n ganolog gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu'n annibynnol er mwyn sicrhau cysondeb ac ymlyniad at egwyddorion arferion da. Yn y Strategaeth Genedlaethol derfynol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu hyn.

### Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

72. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn **cydnabod y pryderon ynglŷn â'r strategaeth ddrafft**. Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol ar 4 Tachwedd fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, ond dywedodd wrth y Pwyllgor cyn iddi gael ei chyhoeddi:

“It says in the Act about delivering this six months post election. I think, in hindsight, that's far too quickly; I think [...] would be much more effective if we had more time to do that. I don't want to put a strategy out that could be better, based on a timeframe that we are legislating for.”<sup>44</sup>

73. Aeth yn ei flaen i ymrwmo i baratoi a chyhoeddi 'cynllun cyflawni' manylach yn nes ymlaen:

“I believe, we can deliver a very high level overarching-principle strategy that meets the legislation requirements, but actually the detail of delivery will be in the delivery plan underneath that. I think that's a way of getting through the legal challenge on not delivering the strategy at the appropriate time.”<sup>45</sup>

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 19 Hydref 2016

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 19 Hydref 2016

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 19 Hydref 2016

**74.** Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol yn dweud sut y dylent roi eu swyddogaethau ar waith wrth weithredu'r Ddeddf. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, awgrymodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried yr opsiwn hwn ar gyfer y cynllun cyflawni.

**75.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wedyn fod cynnwys y 'Fframwaith Cyflawni' yn dal i gael ei ddatblygu a bod **y statws cyfreithiol yn rhywbeth y penderfynir yn ei gylch yn ystod y cyfnod datblygu.**<sup>46</sup> Esboniodd yr ymgynghorid a rhanddeiliaid ac â'r Cynghorydd Cenedlaethol ynglŷn â'r cynllun cyflawni ond ni roddodd ddim awgrym am yr **amserlenni ar gyfer yr ymgynghori nac ar gyfer cyhoeddi'r cynllun terfynol.**

## Barn y pwyllgor

**76.** Rydym yn **siomedig iddi gymryd 18 mis i gyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol**, a bod yr ymgynghori ynglŷn â'r strategaeth ddrafft wedi digwydd mor agos at y dyddiad cyhoeddi a bennir yn y Ddeddf. Roedd hyn yn golygu mai ychydig o amser oedd i newid y strategaeth ar sail y dystiolaeth a gafwyd. Credwn, pe bai gwaith paratoi wedi'i wneud ar y strategaeth yn gynharach, y gallasai'r **Strategaeth derfynol fod wedi bod yn fwy uchelgeisiol a chadarn.**

**77.** Rydym yn falch o weld bod rhai o'r materion a godwyd yn ystod ein hymchwiliad, ac mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, **wedi cael sylw yn y Strategaeth derfynol.** Yn benodol, rydym yn croesawu'r ymrwymadau i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr a fframwaith cyfathrebu cenedlaethol, ynghyd â mabwysiadau diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig.

**78.** Nodwn ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gyhoeddi cynllun cyflawni. Serch hynny, credwn mai **cynllun anstatudol fyddai cynllun o'r fath** oherwydd nad oes darpariaeth yn y Ddeddf ar gyfer cynllun, ac na fyddai dim amcanion ychwanegol ynddo'n rhai y gellid eu gorfodi drwy'r gyfraith (sy'n wahanol i amcanion y Strategaeth Genedlaethol). O gofio hyn, credwn y dylid cyhoeddi'r cynllun cyflawni fel canllawiau statudol o dan adran 15. Byddai hyn yn rhoi sail gyfreithiol i'r cynllun, a byddai'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ei ddilyn.

**79.** Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad yn y Strategaeth Genedlaethol i gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i lywio gwaith datblygu strategaethau lleol, rydym yn nodi y bydd awdurdodau'n dechrau datblygu strategaethau lleol cyn cyhoeddi'r cynllun cyflawni manwl a'r canllawiau. Gallai hyn arwain at ddulliau anghyson o weithio. Fodd bynnag, **rydym yn disgwyl y bydd unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn mynd i'r afael â hyn.**

**80.** Rydym yn **nodi nad yw deg argymhelliad y goroeswyr wedi'u cynnwys yn llawn yng nghamau gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol, megis argymhelliad 3 yn ymwneud â gwelliannau i lysoedd teulu ac ymarfer CAF/CASS Cymru.** Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ddatblygu **fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â** goroeswyr ac rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn awgrymiadau gan y Cynghorydd Cenedlaethol a Chymorth i Ferched Cymru ar y mater hwn.

**81.** Hoffem weld argymhellion y goroeswyr yn cael eu hystyried yn llawn yn y broses o ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

---

<sup>46</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 8 Tachwedd 2016.



**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder:

- i egluro statws cyfreithiol y cynllun cyflawni sydd ar y gweill, a gorau oll os gellir cyhoeddi hwnnw ar ffurf canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod modd ei orfodi;
- i amlinellu pa bryd y cyhoeddir y cynllun cyflawni, a sut yr ymgynghorir yn ei gylch;
- i sicrhau bod y deg argymhelliad gan oroeswyr sydd yn yr adroddiad ‘Are you listening and am I being heard?’ yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod y broses o ddatblygu’r fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

## 04. Addysg

- 82.** Roedd addysg yn bwnc llosg yn ystod hynt y Ddeddf. Roedd y **Papur Gwyn cychwynnol ar y ddeddfwriaeth yn 2012**, yn cynnig y byddai'r Bil yn sicrhau bod addysg am 'berthnasoedd iach' yn cael ei darparu'n orfodol ym mhob ysgol.
- 83.** Serch hynny, ni chafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn y Bil drafft. Yn ôl y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd (sef yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil), roedd addysg perthnasoedd iach yn hytrach yn cael ei hystyried yn rhan o'r **adolygiad o'r cwricwlwm o dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson**, a fyddai'n cynnwys adolygu'r cwricwlwm sylfaenol, gan gynnwys Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).<sup>47</sup>
- 84.** Yn dilyn argymhellion y Pwyllgor blaenorol a phwysau o du rhanddeiliaid, roedd y Ddeddf derfynol yn gosod dyletswydd **ar awdurdodau lleol i adrodd am sut y maent yn mynd i'r afael â thrais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu sefydliadau addysg** gan gynnwys drwy addysg ryw.
- 85.** Dyma'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n berthnasol i addysg:
- **Adran 9** sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, fynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn ag a yw swyddogaethau addysg lleol yn cael eu cyflawni i hybu diben y Ddeddf, a sut, ac
  - **Adran 10**, sy'n rhoi'r:
    - pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach;
    - pŵer i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyhoeddi canllawiau i gyrrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch.
- 86.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, wrth y Pwyllgor y byddai'r rheoliadau o dan adran 9 yn cael eu datblygu'n gynnar yn 2017.<sup>48</sup> Nid yw'n glir pa bryd y bydd gofyn i awdurdodau lleol ddechrau adrodd. Serch hynny **nid oedd** y Cynghorydd Cenedlaethol **yn ymwybodol o'r cynnwys na'r amserlen arfaethedig** ar gyfer cyhoeddi'r rheoliadau na'r canllawiau.

### Cysondeb

- 87.** Cododd llawer o'r rhanddeiliaid bryderon ynghylch y ffaith **nad oedd yn orfodol** i sefydliadau darparu addysg perthnasoedd iach, ac i bob golwg, fod cryn ddryswch am y cymorth y byddai ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ei gael er mwyn sicrhau bod perthynas iach yn dod yn rhan lawn o'r dysgu.

---

“When you’ve left school, you’ve **ingrained a lot of these societal problems and a lot these unhealthy** attitudes towards sex and relationships, and by then it’s

---

<sup>47</sup> Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn **Adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil** gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad

<sup>48</sup> **Gohebiaeth rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Cadeirydd**, 9 ac 18 Hydref 2016

too late to give sex and relationships education that's inclusive and expect that to change everything.

So, what we need is education that is targeted at changing societal attitudes.”

NUS Cymru<sup>49</sup>

---

**88.** Roedd llawer o randdeiliaid yn meddwl bod hyn yn arwain at ddulliau anghyson mewn gwahanol ysgolion:

- Mae Barnardo's yn pryderu o hyd na fydd rhai ysgolion yn coleddu ymagwedd ysgol gyfan yn llawn os na fydd gofyniad statudol iddynt wneud hynny. Roedd gan Gyngor a Dinas Abertawe bryderon tebyg y byddai ysgolion yn dal i allu dewis peidio â darparu sesiynau perthynas iach oni fyddai'n ddyletswydd statudol arnynt i wneud hynny.<sup>50</sup>
- Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru nad oedd cynllun clir i'w weld eto ar gyfer sut a pha bryd y byddai ysgolion a sefydliadau addysg eraill yn rhoi'r canllawiau hyn ar waith ac nad oedd fawr o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd bod hyn yn cael ei wneud yn gyson drwy ysgolion Cymru a lleoliadau addysgol eraill.<sup>51</sup>
- Dywedodd Heddlu Gwent y byddai gwell siawns o lawer y byddai pobl yn defnyddio cwricwlwm petai hwnnw'n barod i'w gyflwyno ac yn addas ar gyfer oedran y plant (i'w integreiddio i'r Cwricwlwm Cededlaethol) ac y byddai hynny'n helpu pob ysgol i fabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan.<sup>52</sup>

## Adolygiad o'r cwricwlwm

**89.** Mae adroddiad yr Athro Donaldson am y cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru yn nodi pedwar diben y cwricwlwm yng Nghymru, sef bod ein plant a'n pobl ifanc i gyd yn datblygu:

- **yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- **yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;**
- **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;**
- **yn unigolion iach**, hyderus sy'n barod i fyw bywyd llawn gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**90.** Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylid trefnu'r cwricwlwm o amgylch **chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' yn hytrach nag ar sail pynciau cul, ar wahân, fel y maent ar hyn o bryd**. Dyma'r meysydd dysgu a argymhellir:

- Celfyddydau Mynegiannol;
- Iechyd a lles;
- Dyniaethau;

---

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 13 Hydref 2016

<sup>50</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 27

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 28

<sup>52</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 06

- leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Mathemateg a Rhifedd;
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

**91.** Rhoddwyd y dasg i rwydwaith o 120 o **'Ysgolion Arloesi'** drwy Gymru o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, ond deallir na fydd pob Ysgol Arloesi'n rhoi sylw i bob un o'r chwe maes.

**92.** Credai'r Cyngorydd Cenedlaethol **ei bod yn hanfodol i'r cwricwlwm gynnwys rhaglenni ataliol gorfodol addas ar gyfer oedran y plant** gyda golwg ar bob ffurf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r rheini wedi'u gwreiddio mewn fframwaith cydraddoldeb rhwng y rhywiau a hawliau dynol.<sup>53</sup>

**93.** Ei barn hi yw bod rôl addysg yn hanfodol er mwyn i Gymru wireddu potensial y Ddeddf yn llwyddiannus. Mae hyn yn pwysleisio, unwaith eto, fod angen strategaeth wirioneddol integredig sy'n gofyn am arweiniad, ymrwymiad ac adnoddau o bob rhan o'r Llywodraeth er mwyn sicrhau newid a fydd yn para.<sup>54</sup>

**94.** Yn ei thystiolaeth lafar, amlinellodd ei phryderon am hyblygrwydd posibl y cwricwlwm, hyd yn oed pe bai addysg perthnasoedd iach yn cael ei chynnwys:

---

“my [...] understanding is that those areas of learning and experience need to be flexible and that they can be optional for schools in terms of which of those they will adopt in terms of their approach to the curriculum.

I think it's in that flexibility and optional approach that the potential may not be realised, because that is the approach that we have at the moment in terms of our Spectrum programme, which is the Welsh Government-funded programme in schools, as well as the STAR programme that is delivered in Wales. But they are optional, so therefore, that's very much down to the leadership of individual schools as to whether they recognise this as a priority and whether it should be delivered within the schools.”<sup>55</sup>

---

**95.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn am ragor o wybodaeth am sut mae'r elfennau hyn yn y Ddeddf yn cael eu rhoi ar waith gan ei hadran. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

- ei bod yn disgwyl, ond na allai gadarnhau, **y byddai addysg perthnasoedd iach yn cael ei gynnwys ym Maes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a Llesiant'** yn unol â chynigion yr Athro Donaldson;
- bydd y Canllaw Arfer Da sydd wedi'u datblygu gan Cymorth i Ferched Cymru **yn rhan o'r wybodaeth a'r adnoddau arferion da a fydd yn helpu'r Ysgolion Arloesi** sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm newydd;
- bydd y rheoliadau o dan adran 9 o'r Ddeddf **yn cael eu datblygu'n gynnar yn 2017**, ac y bydd hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth bob

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>54</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 19 Hydref 2016

blwyddyn am y camau y maent yn eu cymryd, gan gynnwys mewn ysgolion, i hybu dibenion y Ddeddf; a

- bod swyddogion yn **adolygu sut orau y gellir cefnogi sefydliadau addysg uwch i fynd i'r afael â'r materion hyn.**<sup>56</sup>

## Canllawiau Arferion Da

**96.** Cyhoeddwyd **Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol (y Canllaw)** a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a baratowyd gan Cymorth i Ferched Cymru, ym mis Hydref 2015. Fe'i disgrifir fel hyn ar **wefan Llywodraeth Cymru** fel hyn: "**adnodd hwylus** i helpu i ymgorffori'r materion a'r ymagweddau hyn mewn arferion addysgu a rheoli presennol". **Nid yw'n rhan o'r canllawiau statudol** a wneir o dan y Ddeddf.

**97.** Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru **nad oedd cynllun clir i'w weld eto ar gyfer sut a pha bryd y byddai ysgolion a sefydliadau addysg eraill yn rhoi'r canllaw hwn ar waith ac nad oedd fawr o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd ei bod yn cael ei defnyddio'n gyson** drwy ysgolion Cymru a lleoliadau addysgol eraill.<sup>57</sup>

**98.** Dywedodd y Cynghorydd Cenedlaethol **nad yw'n gwybod sut mae'r Canllaw'n cael ei ddefnyddio, ei ddsbarthu na'i fonitro**, na hyd yn oed faint o ysgolion sy'n ei ddefnyddio. Mae'n dweud hefyd ei bod yn ansicr pa adnoddau sydd wedi'u hystyried yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol i gefnogi a galluogi'r ysgolion i sbarduno'r newid diwylliant hwn.<sup>58</sup>

**99.** Dywedodd hefyd:

---

"I fear that without clear direction from Welsh Government as to the expectation for implementation and mechanisms for data collection and monitoring there is a real risk that the commitments made by the former Minister will fail to deliver change within our education settings."<sup>59</sup>

---

**100.** Ochr yn ochr â'r Canllaw, **mae pecyn o adnoddau a deunyddiau** i'w defnyddio mewn lleoliadau cynradd, uwchradd ac addysg bellach i ategu'r canllaw arferion da wedi bod yn destun gwaith ymchwil ac wedi'u paratoi gan Cymorth i Ferched Cymru ac AVA (Yn erbyn Trais a Cham-drin). Fel y nododd Cymorth i Ferched,<sup>60</sup> cyflwynwyd y pecyn hwn i'r Llywodraeth yn fuan yn 2016 **ond nid yw wedi'i gyhoeddi eto.**

**101.** Bydd Estyn yn cynnal **adolygiad thematig drwy gydol y flwyddyn academiaidd 2016-17** i ymchwilio i'r darpariaethau perthnasodd iach sydd ar waith eisoes drwy Gymru. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor y bydd yn casglu tystiolaeth yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2016 gyda'r bwriad o **gyhoeddi adroddiad ym mis Gorffennaf 2017.**<sup>61</sup>

---

<sup>56</sup> **Gohebiaeth rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Cadeirydd**, 9 ac 18 Hydref 2016

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 28

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>60</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 28

<sup>61</sup> **Gohebiaeth rhwng Estyn a'r Cadeirydd**, Hydref 2016

## Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

**102.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod wedi gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sicrhau bod ei dîm yn cael gwybod am ddatblygiadau adolygiad Donaldson a sut ffurf a allai fod ar y cwricwlwm yn y dyfodol.<sup>62</sup>

**103.** Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor ei fod yn cytuno bod **ymyrraeth gynnar ac addysg yn hanfodol er mwyn dechrau adeiladu perthynas iach â phobl**. Nododd fod gennym rai rhaglenni ar waith eisoes **a'i fod yn wirioneddol awyddus i sicrhau cysondeb**.<sup>63</sup>

**104.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrth y Pwyllgor fod **Ysgolion Arloesi wrthi'n ystyried cynllun strategol ac egwyddorion craidd** y cwricwlwm. Mae'n dweud:

---

“It is not envisaged that all Pioneer Schools will be involved in developing all six AoLEs. Each Pioneer School will know which AoLE they are focussing on in the near future and will be tasked with gathering evidence to help inform the high level AoLE design during the first period of development.

This will be taken further during 2017 with a view to the new curriculum being available to schools from 2018 and fully available to support learning and teaching by 2021.

My officials will continue to work with the National Adviser for VAWDA to ensure suitable evidence is provided during the design and development phase.”<sup>64</sup>

---

## Barn y pwyllgor

**105.** Ar ôl cael tystiolaeth helaeth a honno fwy neu lai'n gonsensws ynglŷn â phwysigrwydd addysgu plant a phobl ifanc am berthynas iach, **credwn mai addysg orfodol yw'r allwedd i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y lle cyntaf**. Rydym yn falch bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno bod ymyrraeth gynnar ac addysg yn hanfodol er mwyn rhoi diwedd ar gam-drin.

**106.** Serch hynny, nid ydym wedi cael digon o sicrwydd y caiff y mater hollbwysig hwn ei gynnwys yn y cwricwlwm newydd, ac os caiff, na fydd ysgolion yn gallu 'dewis peidio' â mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod galwadau cryf iawn o blaid gwneud addysgu o'r fath yn orfodol ym mhob ysgol.

**107.** Rydym yn pryderu, os **nad yw'n ofyniad statudol i ysgolion ddarparu addysg ynglŷn â pherthnasoedd iach**, er y bydd rhai ysgolion yn dal i fynd i'r afael â hyn yn effeithiol, y bydd rhai yn dewis peidio, fel sy'n wir ar hyn o bryd. Credwn fod y math hwn o amrywiadau'n gwrthdaro'n uniongyrchol â nod y Ddeddf maes o law, sef cysondeb. Er mwyn atal cam-drin a thrais rhag digwydd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod hyrwyddo perthnasoedd iach ar oedran ifanc yn ddyletswydd statudol.

**108.** Cafodd y Canllaw Arfer Da, a ddatblygwyd gan Cymorth i Ferched Cymru ac a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ei ddisbarthu i ysgolion ym mis Hydref 2015. Rydym yn pryderu **nad oes dim**

---

62 Cofnod y trafodion, paragraff 164, 19 Hydref 2016

63 Cofnod y trafodion, paragraff 164, 19 Hydref 2016

64 [Gohebiaeth rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Cadeirydd](#), 9 a 18 Hydref 2016



**camau wedi'u rhoi ar waith i fonitro faint sy'n ei defnyddio na'i heffeithiolrwydd.** Ni allai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant na'r Ysgrifennydd Addysg roi amcangyfrif i'r Pwyllgor ynglŷn â faint o ysgolion sy'n defnyddio'r Canllaw ar hyn o bryd. Roedd llawer o'r tystion yn canmol y ddogfen, ond heb dystiolaeth i ddangos sut yr oedd yn cael ei defnyddio a'i heffeithiolrwydd, mae'n anodd barnu a yw'n cael dylanwad cadarnhaol mewn ysgolion.

**109.** Clywsom hefyd nad yw'r **pecyn o ddeunyddiau i'w defnyddio ochr yn ochr â'r Canllaw** wedi'i gyhoeddi eto. Rydym yn pryderu, heb allu cael gafael ar adnoddau o'r fath, na fydd ysgolion o bosibl yn gallu cyflawni'r addysgu mwyaf effeithiol yn y maes hwn.

**110.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym y byddai'r rheoliadau o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 fel y mewnosodwyd gan adran 9 o'r Ddeddf (**yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd am sut mae eu sefydliadau addysg yn rhoi nodau'r Ddeddf ar waith**) yn cael eu cyhoeddi yn 2017, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i fynnu bod awdurdodau lleol yn adrodd o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen.

**111.** Rydym hefyd yn pryderu **nad oes camau gweithredu yn y Strategaeth Genedlaethol derfynol ynglŷn â darparu addysg perthnasoedd iach mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.** Er ein bod yn cydnabod dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg bod gwaith ar y gweill yn y maes hwn, hoffem weld canllawiau'n cael eu cyhoeddi o dan adran 10 o'r Ddeddf.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i gynnwys addysg perthnasoedd iach yn y cwricwlwm newydd o dan y Maes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a Llesiant', a sicrhau y caiff hyn ei ddarparu ym mhob ysgol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob ysgol, (ac yn arbennig y rhwydwaith o Ysgolion Arloesi) yn defnyddio'r Canllaw Arfer Da, a dylai sefydlu trefniadau monitro i fesur effeithiolrwydd y canllaw hwnnw. Ar ôl gwerthuso'r Canllaw, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei wneud yn ganllawiau statudol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru brysuro i baratoi'r rheoliadau o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth gan awdurdodau lleol am sut y maent yn rhoi eu swyddogaethau ar waith i hyrwyddo diben y Ddeddf. Dylai ymrwmo hefyd i fynnu bod awdurdodau lleol yn dechrau adrodd erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2017/18.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r pecyn o adnoddau a deunyddiau a luniwyd gan Cymorth i Ferched Cymru ac AVA (Against Violence and Abuse) i'w defnyddio ochr yn ochr â'r Canllaw Arfer Da.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd addysg perthnasoedd da a chydysnio'n cael ei darparu gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys trefnu i gyhoeddi canllawiau gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan adran 10 o'r Ddeddf.

## 05. Y Cynghorydd Cenedlaethol

**112.** Roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r Cynghorydd Cenedlaethol, a benodwyd haf diwethaf. Dywedodd rhanddeiliaid iddi fod yn rhagweithiol yn cyfarfod ag awdurdodau lleol a bod ei hymrwymiad a'i brwdfrydedd dros y Ddeddf yn gymeradwy. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo ar y cyfan fod eu **pryderon blaenorol am ddiffyg annibyniaeth y Cynghorydd oddi wrth y Llywodraeth heb eu gwireddu.**

### Capasiti a dylanwad

**113.** Roedd llawer o randdeiliaid yn pryderu **mai rôl ran-amser oedd rôl y Cynghorydd**, ac nad oes ganddi ond un aelod rhan amser o staff i'w helpu. Dywedodd Bawso **y byddai'r rôl yn fwy effeithiol pe bai'n swydd amser llawn** a bod tîm o staff yn cydweithio â hi i sicrhau eu bod yn casglu data i lywio'r strategaeth yn barhaus yn hytrach na dibynnu ar grwpiau ffocws.<sup>65</sup> Roedd Heddlu Gwent yn meddwl **bod pŵer y Cynghorydd Cenedlaethol yn cael ei gyfyngu gan gapasiti.** Dywedodd os edrychir ar yr hyn y mae angen iddi ei gyflawni, y cyfrifoldebau o ran atebolrwydd a monitro ac os ystyrir pa waith y mae angen ei wneud er mwyn cyflawni hyn, mae'n amlwg bod angen rhagor o gapasiti.

**114.** Dywedodd Tîm Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domesitg a Thrais Rhywiol Gwent hefyd mai prin yw'r adnoddau a gaiff y Cynghorydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn llawn ac **y dylid gallu atgynhyrchu'n genedlaethol yr holl arferion da** a welir ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn genedlaethol.<sup>66</sup>

**115.** Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched eu bod yn pryderu am yr hyn y disgwylir i'r Cynghorydd Cenedlaethol ei gyflawni **mewn swydd ran-amser heb dîm o staff cymorth.** Yn ddelfrydol dylai'r rôl fod wedi'i sefydlu o dan strwythur tebyg i'r Comisiynwyr presennol. Roedd Cymru Ddiogelach hefyd yn poeni mai swydd ran-amser yw hon ac nad oes ganddi ddigon o bŵer ac adnoddau **i ddal Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yn atebol** am eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.<sup>67</sup>

**116.** Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno â hyn gan ddweud ei bod yn rôl heriol iawn i un unigolyn nad yw'n cael ond ychydig iawn o gymorth. Rwy'n meddwl ac ystyried hynny ei bod yn cael dylanwad sylweddol ac yn cyrraedd ymhell, ond credaf y gellid ehangu hynny drwy ddatblygu'r rôl honno a'i chryfhau.<sup>68</sup>

### Pŵer

**117.** Y pryder mawr arall ynglŷn â'r Cynghorydd oedd **y diffyg pŵer i gosbi awdurdodau nad ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf.**

---

<sup>65</sup>Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 19

<sup>66</sup>Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 07

<sup>67</sup>Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 13

<sup>68</sup>Cofnod y Trafodion, paragraff 399, 13 Hydref 2016

**118.** Roedd y Cyngorydd Cenedlaethol yn glir nad oes i'r rôl bwerau i ddal Gweinidogion, Llywodraeth Cymru na gwasanaethau cyhoeddus yn atebol o fewn y capasiti cyngori hwn mewn perthynas â gweithredu'r ddeddf ac felly nad oes dannedd i'r rôl.<sup>69</sup>

**119.** Ymhelaethodd ar hyn gan ddweud bod hyn yn codi rhagor o gwestiynau ynglŷn â **pha gosbau y gellid eu rhoi pe na bai'r rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n orfodol o dan y Ddeddf yn cael eu cyflawni**. Ar hyn o bryd, mae diffyg manylion am unrhyw opsiynau cosbi gyda golwg ar ofynion y Ddeddf neu unrhyw ganllawiau statudol. Os nad y Cyngorydd Cenedlaethol sy'n dal awdurdodau cyhoeddus yn atebol gyda golwg ar y Ddeddf, **ymhle mae'r atebolrwydd?**

**120.** Nododd Heddlu Dyfed Powys na all y Cyngorydd ond cyngori ac nad oes ganddi'r awdurdod i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu.<sup>70</sup>

**121.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, roedd Cymorth i Ferched Cymru yn cydnabod pŵer y Cyngorydd Cenedlaethol i roi cyngor a monitro, ond dywedodd **nad yw'n glir o hyd beth yw cylch gwaith y rôl os bydd gofyn cyngori Gweinidogion neu herio Llywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill** ynghylch peidio â chyflawni eu dyletswyddau statudol. Aethant yn eu blaen i ddweud bod **cosbau'n gwbl hanfodol er mwyn i'r ddeddfwriaeth gael dannedd**. Roedd Bawso, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Caerdydd yn adleisio'r farn hon.

**122.** Roedd Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan yn meddwl y dylai fod gan y Cyngorydd **bwerau i archwilio a cheisio eglurhad am gomisiynu** gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

## Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

**123.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd y Cyngorydd Cenedlaethol **wedi trafod materion ynglŷn â chapasiti ag ef**. O ran adnoddau a phŵer, dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Ddeddf yn glir iawn am rôl y cyngorydd. Mae manyleb y swydd a'r cyllid a ddyrennir ar ei chyfer yn benodol iawn, hefyd.

**124.** Ynglŷn â chosbau, dywedodd:

“[...] the sanctions available aren't through the adviser's office, but they are available through the local government Minister's office. So, again, I think we have to be with full knowledge and understanding that the job advertised, the job of the Act, was about being an adviser, not a commissioner.”<sup>71</sup>

## Barn y pwyllgor

**125.** Rydym yn cydnabod pryderon rhanddeiliaid ynghylch capasiti'r Cyngorydd Cenedlaethol yn sgil y ffaith mai swydd rhan amser ydyw. Hoffem i Ysgrifennydd y Cabinet adolygu capasiti a llinellau cyfathrebu'r Cyngorydd Cenedlaethol, yn arbennig ei gallu i gynnal gwaith ymchwil, a chefnogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i baratoi eu strategaethau lleol.

**126.** Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r Cyngorydd Cenedlaethol gynhyrchu cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol, ond **nid oes sôn am y rhain yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ac nid**

<sup>69</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 35

<sup>70</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PLVAW 03

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 200, 19 Hydref 2016

**dynt yn cael eu hadlewyrchu ynddi.** Rydym yn credu y dylid cael mwy o gysondeb rhwng y Strategaeth Genedlaethol a chynllun gwaith y Cynghorydd Cenedlaethol.

**127. Nid ydym yn glir am y cosbau sydd ar gael i Weinidogion Cymru** os na fydd awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Ddeddf, er enghraifft, os na fydd awdurdod lleol yn cyhoeddi strategaeth leol neu'n hyfforddi ei staff.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu capasiti rôl y Cynghorydd Cenedlaethol, gan ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol iddi ar gyfer gwaith ymchwil ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gosbau sydd ar gael i Weinidogion Cymru oni fydd awdurdodau'n cyflawni gofynion y Ddeddf.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio at y Cynghorydd Cenedlaethol, ei chyfrifoldebau a'i chynllun gwaith blynyddol yn y cynllun cyflawni ac mewn unrhyw strategaethau cenedlaethol a lleol yn y dyfodol.

## Atodiad A: tystiolaeth a gafwyd

### Tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor. Mae trawsgrifau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld ar [wefan y Pwyllgor](#).

#### 13 Hydref 2016

---

Enw	Sefydliad
Eleri Butler	Cymorth i Ferched Cymru
Frances Beecher	Llamau
Jackie Stamp	Llwybrau Newydd
Mutale Merrill	BAWSO
Fflur Elin	Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (NUSW)
Claire O'Shea	Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (NUSW)
Vivienne Laing	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
Sian Morris	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Joy Williams	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Lin Slater	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Chris Overs	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Wendy Sunderland-Evans	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Aideen Naughton	Iechyd Cyhoeddus Cymru

#### 19 Hydref 2016

---

Enw	Sefydliad
Rhian Bowen-Davies	Y Cyngorydd Cenedlaethol
Carl Sargeant AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Martin Swain	Llywodraeth Cymru

## Tystiolaeth ysgrifenedig

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan y bobl a'r sefydliadau isod rhwng Awst 2016 a Medi 2016. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghori i'w gweld ar [wefan y Pwyllgor](#).

<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfeirnod</b>
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn	PLVAW 01
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	PLVAW 02
Heddlu Dyfed-Powys	PLVAW 03
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	PLVAW 04
Pathways	PLVAW 05
Heddlu Gwent	PLVAW 06
Tîm Rhanbarthol Gwent - Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol	PLVAW 07
Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin	PLVAW 08
Darparwyr gwasanaethau yn Rhanbarth Cwm Taf	PLVAW 09
Ymddiriedolaeth y Goroewyr	PLVAW 10
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	PLVAW 11
Cymdeithas arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru) (ASCL)	PLVAW 12
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru	PLVAW 13
Cyngor Dinas Caerdydd	PLVAW 14
Cyngor Sir y Fflint	PLVAW 15
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	PLVAW 16
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	PLVAW 17
Mae'r Ddau Riant yn Bwysig	PLVAW 18
Bawso	PLVAW 19
Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan	PLVAW 20
Atal y Fro	PLVAW 21
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	PLVAW 22
Tai Cymunedol Cymru	PLVAW 23
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	PLVAW 24



Cyngor a Dinas Abertawe	PLVAW 25
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	PLVAW 26
Barnardo's Cymru	PLVAW 27
Cymorth i Ferched Cymru	PLVAW 28
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	PLVAW 29
Cymru Ddiogelach	PLVAW 30
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant	PLVAW 31
Grŵp Gweithredu Menywod yn Erbyn Trais - Cymru	PLVAW 32
NAHT Cymru	PLVAW 33
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu - Gwent	PLVAW 34
Y Cyngorydd Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, a mathau eraill o drais seiliedig ar Rywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.	PLVAW 35
Estyn	PLVAW 36
<u>Gohebiaeth rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Cadeirydd</u>	Hydref 2016
<u>Gohebiaeth rhwng Estyn a'r Cadeirydd</u>	Hydref 2016
Gohebiaeth rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant a'r Cadeirydd - [dolen i'w hychwanegu pan fydd arlein]	Tachwedd 2016

## Ymweliadau allanol

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, aeth aelodau o'r Pwyllgor i ymweld â phrosiectau o gwmpas Cymru i helpu'r Aelodau i ddeall y materion sy'n wynebu defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru.

Sefydliad	Dyddiad
Rainbow Bridge	5 Hydref 2016
Calan DVS	5 Hydref 2016
Cymorth i Ferched Casnewydd	5 Hydref 2016
Bawso	6 Hydref 2016